

W/SERD

Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac
Economaidd a Data Cymru

Wales Institute of Social and Economic
Research and Data

CIPOLWNG

2020 ADRODDIAD BLYNYDDOL



Mae Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol.

Rydym wedi ein dynodi'n ganolfan ymchwil genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe – ac yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae ein gwaith ymchwil yn ysgogi newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisiâu ac arferion ar draws ystod o sectorau.

Mae WISERD yn gartref i Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD sy'n gweithredu ledled y DU, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), a nifer o grantiau ymchwil mawr eraill.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae WISERD yn cynnwys Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, ac yno cynhelir prosiectau GLOBAL-RURAL, IMAJINE a ROBUST a ariennir gan yr UE. Mae WISERD hefyd yn gartref i ADR Cymru (Ymchwil Data Gweinyddol Cymru) – cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ADR Cymru yn rhan o ADR y DU (Ymchwil Data Gweinyddol y DU) a ariennir gan yr ESRC.

Data am gyhoeddiadau WISERD ar dudalennau 10 ac 11 a ddarperir gan Elsevier: www.elsevier.com.

Adroddiad y Cyfarwyddwr



Croeso i WISERD Insight. Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad ar 2019 – fy mlwyddyn gyntaf yn Gyfarwyddwr WISERD. Mae wedi bod yn fraint ymgymryd â'r rôl tra bo'r Athro Ian Rees Jones yn arwain ein Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil newydd a ariennir gan ESRC. Mae'r flwyddyn hon wedi dynodi diwedd un bennod a dechrau pennod newydd, ac wedi cryfhau sefyllfa WISERD fel canolfan ymchwil genedlaethol bwysig.

Un o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol 2019 oedd ein llwyddiant yng nghystadleuaeth Canolfannau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), lle gwnaethom sicrhau ail-fuddsoddiad gwerth £6.3 miliwn i barhau â'n hymchwil i gymdeithas sifil.

Dyma'r trydydd dyfarniad arian mawr yn hanes deng mlynedd WISERD, a bydd yn cynnwys rhaglen waith uchelgeisiol newydd dros bum mlynedd. Gallwch ddarllen mwy am yr holl brosiectau newydd ar ein gwefan a llwytho'r llyfryn cymdeithas sifil diweddaraf i lawr www.wiserd.ac.uk.

Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r arbenigedd ac arloesedd hwn ar draws ein pump o brifysgolion partner sef Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe, gan gynnwys cyd-ymchwilwyr o'r DU, o Ewrop ac yn rhyngwladol. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'n cydweithwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, polisi a'r trydydd sector.

Ym mis Chwefror 2020, gwnaethom lansio'r Ganolfan Cymdeithas Sifil newydd a ariennir gan ESRC yn y Senedd ym Mae Caerdydd, gyda'r digwyddiad i randdeiliaid, *Dathlu Ymchwil Cymdeithas Sifil: Pennod Newydd*. Rydym yn

ddiolchgar i Mark Drakeford, AC, Prif Weinidog Cymru a'r Athro Alison Park, Cyfarwyddwr Ymchwil yn y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) am siarad yn y digwyddiad.

Mae ein cydweithwyr WISERD ym Mhrifysgol Bangor yn bwriadu dathlu'r Ganolfan newydd hon ymhellach yn ystod yr hydref. Bydd hyn hefyd yn nodi dechrau cyfres newydd o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo ymchwil WISERD ym Mangor, gan ddod ag ymchwilwyr o'r Brifysgol ynghyd i osod y sylfeini ar gyfer prosiectau ymchwil rhyngddisgyblaethol yn y dyfodol.

Yn 2019, cynhaliodd WISERD ei degfed Gynhadledd Flynyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Y thema oedd *Cymdeithas Sifil a Chymryd Rhan*, a gwnaethom groesawu dros 150 o gynadleddwyr. Fe wnes i a thri o gyd-gyfarwyddwyr WISERD gymryd rhan mewn panel arbennig i bawb, i fyfyrion ar ein Canolfan Cymdeithas Sifil flaenorol a ariannwyd gan ESRC, a ddechreuodd ym mis Hydref 2014. Gwnaethom ystyried sut rydym wedi gallu llywio polisiâu hyd yn hyn a thrafod sut mae'r rhaglen newydd yn bwriadu dylanwadu ar bolisi yng Nghymru a thu hwnt.

Roedd y digwyddiad yn 2019 hefyd yn cynnwys symposiwm cyn y gynhadledd am y tro cyntaf erioed. Cynhaliwyd *Statws*

Mae llwyddiant WISERD yn dyst i'r ffordd mae'n cydweithio â phrifysgolion ac elusennau ledled Cymru, Ewrop, a'r byd. Ni fu ffeithiau erioed yn bwysicach, a bydd meddu ar ganolbwynt gwybodaeth o'r radd flaenaf fydd yn ein cynorthwyo ni yn y Llywodraeth i wneud y penderfyniadau cywir yn ein helpu i greu Cymru well i ninnau ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mark Drakeford,
Meddai Prif Weinidog Cymru wrth siarad yn
Dathlu Ymchwil Cymdeithas Sifil: Pennod Newydd





Dathlu Ymchwil i'r Gymdeithas Sifil: Pennod Newydd

ansefydlog? Mudo mewn Oes Gythryblus gan ymchwilydd WISERD, Rhys Dafydd Jones, ym Mhrifysgol Aberystwyth ac roedd yn cynnwys ymchwilwyr ar draws y DU. Ychydig wythnosau yn ddiweddaraf, croesawodd ein digwyddiad, *Casineb a Gelyniaeth Wledig*, yn y Brifysgol unwaith eto, gyfranogwyr o Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac ystod o grwpiau o'r gymdeithas sifil.

Cwblhaodd WISERD rai prosiectau cyffrous yn 2019 a'u nod yw cynnig adnoddau gwerthfawr i ymchwilwyr. Fel rhan o'n sesiwn ymylol yng Nghyngres yr Undeb Llafur yn Brighton, gwnaethom lansio gwasanaeth rhyngweithiol newydd WISERD sef *UnionMaps*. Mae'r gwasanaeth yn galluogi defnyddwyr i gael gafael ar ddata ar aelodaeth ag undebau ar gyfer 400 o ardaloedd awdurdod unedol ac awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr.

At hynny, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Carnegie UK, y Sefydliad Materion Cymreig, y Ganolfan ar gyfer Strategaethau Economaidd Lleol, a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, rydym wedi lansio'r wefan *Deall Lleoedd Cymru*. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am drefi a chymunedau bach yng Nghymru – y lleoedd y mae polisi cyhoeddus yn eu hanwybyddu'n rhy aml.


Fel rhan o'r Ganolfan Cymdeithas Sifil newydd a ariennir gan ESRC, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o chwilio, darganfod, mapio a delweddu data.

Byddwn yn datblygu porth data presennol WISERD (*WISERD DataPortal*) sy'n helpu ymchwilwyr i aildefnyddio data presennol a hynny at ddiben newydd. Byddwn hefyd yn datblygu'r *Labordy Data Addysg* WISERD a lansiwyd yn

ddiweddar, sy'n ceisio cynnig dadansoddiad newydd ac annibynnol o faterion addysgiadol allweddol a defnydd arloesol o ddata addysgiadol, gweinyddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gefnogi ein hymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac rydym yn falch iawn o'u cyflawniadau a'u cyfraniad at waith WISERD. Mae tri o ymchwilwyr WISERD – Constantino Dumangane Jr (bellach yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Efrog), Wil Chivers ac Ian Thomas (y ddau ym Mhrifysgol Caerdydd) – wedi llwyddo i gael lle ar gynllun GW4 Crucible 2019.

Dyfarwyd Gwobr Dillwyn ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru i Dr Stuart Fox (bellach yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Brunel, Llundain), i gydnabod ymchwil eithriadol ar ddechrau gyrfa, yn enwedig am ei waith ar agweddau ac ymddygiad gwleidyddol a dinesig, a ystyriodd ymwneud pobl ifanc â gwleidyddiaeth.



Arddangosfa o ganfyddiadau ymchwil blaenorol y Ganolfan Cymdeithas Sifil, yn Dathlu Ymchwil i'r Gymdeithas Sifil: Pennod Newydd

Mae nifer o fyfyrwyr PhD WISERD hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at feithrin gallu a chynaliadwydd gwaith WISERD, ac wedi cyflwyno eu gwaith ymchwil mewn digwyddiadau rhyngwladol.

Mae'n bleser gennym longyfarch Dr Samuel Brown ar ôl iddo gael ei benodi'n swyddog ymchwil WISERD ym Mhrifysgol Abertawe a Samuel Mann ar ôl cael ei benodi i swydd ôl-ddoethurol WISERD yn Abertawe. Mae Samuel wedi sicrhau lle ar Raglen Rithwir Sefydliad Llafur Fyd-eang i Ysgolheigion Ifanc. Mae *The Conversation* wedi trafod ei ymchwil ar economeg cyfeiriadedd rhywiol, ac fe'i rhannwyd yn helaeth mewn papurau newyddion ar-lein.

Ymunodd cydweithiwr arall â ni'n ddiweddar, sef Dr Jean Jenkins o Ysgol Busnes Caerdydd. Mae Jean wedi gweithio'n agos â WISERD dros nifer o flynyddoedd, ac wedi cyflwyno ei gwaith ymchwil ar hawliau cyflogaeth yn y sector dillad yng *Ngŵyl y Gelli* 2019. Ochr yn ochr â phrosiect Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang a ariennir gan Lywodraeth y DU gyda WISERD mewn partneriaeth â chydweithwyr o India a'i gwaith gydag *Ymgrych Clean Clothes*, yn ddiweddar, mae Jean wedi dechrau prosiect newydd gyda Dr Katy Huxley ym Mhrifysgol Caerdydd, ar *Urgent Appeals: Data and Shared Learning*.

Mae wedi bod yn wych gweld effaith ymchwil WISERD yn 2019. Mae gwaith ymchwil gan yr Athro Gary Higgs a'i dîm ym Mhrifysgol De Cymru wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori a fydd yn llywio fersiwn ddiweddaraf *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)*.

Mae tîm Prifysgol De Cymru hefyd wedi datblygu meddalwedd a fydd yn rhoi cipolwg ar y galw am gyfleusterau chwaraeon, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan hyd at 40 o gyrff llywodraethu chwaraeon, gan gynnwys Gymnasteg Cymru a Chwaraeon Cymru. Ymhellach, dyfarwyd gwobr *Effaith Orau yn y Dyfodol Prifysgol De Cymru* i'w gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd â Gofal Canser Tenovus ynghylch mesur mynediad at wasanaethau canser yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ysgrifenedig gan yr Athro Alan Felstead o WISERD a Rhys Davies o Brifysgol Caerdydd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth newydd am waith yng Nghymru. Mae Alan a Rhys, o Brifysgol Caerdydd, yn rhan o'r tîm a fuodd yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gwerth £1.95m o ESRC ar gyfer Canolfan Deilliannau Cynhyrchedd Ymarfer, Ymgysylltu a Dysgu yn y Gweithle (PROPEL), sy'n ceisio rhoi hwb i gynhyrchiant mewn busnesau ac economi'r DU.

Nod Canolfan Cymdeithas Sifil newydd WISERD a ariennir gan ESRC yw trawsnewid ein dealltwriaeth o sut mae ffurfiau o allgau ac ehangu dinesig, a cholledion ac enillion dinesig, yn effeithio ar gymdeithas sifil a'r potensial i sefydliadau cymdeithas sifil chwarae rôl allweddol o ran atgyweirio sifil.

Cynhaliodd WISERD hefyd adolygiad tystiolaeth ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru ar hawliau dynol plant yng Nghymru, ac arolwg o bron 10,000 o blant i arwain cynllun gwaith tair blynedd y Comisiynydd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn 2019, cwblhawyd prosiect *Dyfodol Llwyddiannus i Bawb*, a ychwanegodd werth at werthusiad presennol Llywodraeth Cymru o gynnydd yr Ysgolion Arloesol wrth ddatblygu'r cwricwlwm 3-15 newydd yng Nghymru. Cyfrannodd Dr Nigel Newton yn sylweddol at y sylw yn y wasg ynghylch y cwricwlwm newydd, a chyflwynodd ganfyddiadau o'n prosiect i aelodau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ymchwil WISERD hefyd yn parhau i helpu i gefnogi'r economi wledig a gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau gwledig. Fel rhan o'r prosiect a ariannwyd gan Horizon 2020 yr UE, ROBUST, mae ymchwilwyr WISERD yn Aberystwyth yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau o'r gymdeithas sifil wledig i ddatblygu 'Gweledigaeth Wledig ar gyfer Cymru'.

Yr amser hwn y flwyddyn nesaf, bydd ein tîm o Gaerdydd yn paratoui i symud i Barc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol newydd Prifysgol Caerdydd (sbarc I sparc). Penodwyd cyd-gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Chris Taylor, yn gyfarwyddwr academiaidd y ganolfan newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at ei gefnogi wrth hyrwyddo partneriaethau newydd rhwng y byd academiaidd, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar y ffordd y mae ein gwaith ymchwil, ein rhwydweithiau, a'n prosiectau cydweithredol rhyngwladol yn datblygu, ac y byddwch yn parhau i ddilyn ein cynnydd wrth i ni ddechrau ein pennod gyffrous newydd.

Yr Athro Sally Power

Cyfarwyddwr WISERD


Proffil incwm

Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Yn 2019 gwnaethom lwyddo i sicrhau cyllid newydd gan ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Grantiau ymchwil a gafwyd yn 2019

Yn ystod 2019, gwnaeth WISERD gais am **23 o grantiau ymchwil** ar draws pob un o'r pum prifysgol bartner. Roedd hefyd yn rhan o geisiadau ymchwil, yn cynnwys y rhai hynny a arweiniwyd gan sefydliadau eraill, hyd at werth o **£16.4m**.


Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafodd WISERD yn 2019 oedd **£8.9m**.



Daeth dros **8.3m** o'r cyllid newydd hwn gan y **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)**, sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, ac sy'n cynnwys y grantiau ymchwil helaeth canlynol:

Cymdeithas Sifil WISERD – Haenid Dinesig ac Atgyweirio Sifil (dechrau Hydref 2019)	£7,927,418
Economiâu gwleidyddol gwahardd o'r ysgol a'u goblygiadau (dechrau Hydref 2019)	£374,858

Daeth dros **£138mil** o'r cyllid newydd hwn gan arianwyr eraill:



Cyllid newydd yn 2019

Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Yn 2019 gwnaethom lwyddo i sicrhau cyllid newydd gan ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.



Ymchwil bresennol WISERD

Roedd gwerth ymchwil barhaus WISERD yn 2019 yn **£22.7m** ar draws **45 o grantiau ymchwil**.



Grantiau ymchwil a gafwyd rhwng 2009-19

Ers 2009, mae WISERD wedi cyflwyno **251 o geisiadau ariannu ymchwil** ar draws prifysgolion partner WISERD, gyda chyfradd lwyddo o **59%**. Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafwyd gan WISERD ers 2009 yw **£36.2m**.



Cysylltiadau rhyngwladol

Mae WISERD yn falch o fod wedi sefydlu llawer o gysylltiadau rhyngwladol, trwy waith maes, digwyddiadau ac ymchwil ar y cyd, croesawu academyddion gwadd a mynd i gynadleddau dramor. Mae rhai o'r rhain wedi'u hamlygu isod.

Sardinia

Gwnaeth ymchwil WISERD ym Mhrifysgol Aberystwyth ysbrydoli straeon GLOBAL-RURAL mewn ffilmiau yn yr *Ŵyl Ffilmiau WOW* flynyddol yn Aberystwyth. Uchafbwynt y digwyddiad oedd dangosiad ffilm ddogfen, *En Route*, yn canolbwyntio ar fudwyr ifanc yng nghefn gwlad Sardinia, a wnaed yn rhan o brosiectau GLOBAL-RURAL a Chymdeithas Sifil WISERD.

Canada

Cymerodd Dr Sioned Pearce a Dr Christala Sophocleous o Brifysgol Caerdydd ran mewn taith gyfnewid ymchwil i Ganada. Roedd yr ymweliad yn gam cyntaf tuag at ffurfio cysylltiadau hirdymor gyda chydweithwyr yng Nghanada, er mwyn ymchwilio i broblemau polisi cymdeithasol is-wladwriaethol a rôl cymdeithas sifil mewn gwahanol gyd-destunau.

Brazil

Mentrodd yr Athro Michael Woods o Brifysgol Aberystwyth, a chyn-ymchwilydd WISERD, i goedwig law yr Amazon i arwain gweithdy ar ymchwil a datblygu gwledig. Gyda chefnogaeth y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang a'r Ganolfan Ymchwil Datblygiad Rhyngwladol yn Aberystwyth (CIDRA), trefnwyd y gweithdy gyda chydweithwyr o Universidade Federal Oeste do Pará yn Santarem, gan ddod â chyfranogwyr ynghyd o dros 20 o brifysgolion a sefydliadau cymdeithas sifil y Mrasil.

Rwsia

Mae'r Athro Anrhydeddus a Chymrawd Emeritws Leverhulme, John Morgan, wedi'i benodi'n aelod o fyrdau golygyddol dau gyfnodolyn academiaidd blaenllaw yn Rwsia. Mae'n ymuno â *Sotsiologicheskíe Issledovaniia* (Astudiaethau Cymdeithasegol), cyfnodolyn y Sefydliad Cymdeithaseg, Academi Gwyddorau Rwsia, a *Filosofi Zhurnal* (Journal of Philosophy), sy'n cael ei gyhoeddi gan RUDN- Prifysgol Cyfeillgarwch Pobl Rwsia (RUDN-Russia People's Friendship University).

Tsieina

Cyhoeddodd WISERD ymchwil newydd ar gymdeithas sifil, lles a llywodraethu yn Tsieina yn 2019. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae WISERD wedi bod yn rhan o gynllun rhyngwladol llwyddiannus Uwch Gymrodoriaeth Newton gydag Academi Gwyddorau Cymdeithasol Tsieina (CASS), a ariannwyd gan yr Academi Brydeinig. Bydd ymchwil gymdeithasol sifil WISERD yn Tsieina yn parhau gyda phrosiect newydd a ariennir gan ESRC ac a arweinir gan yr Athro Paul Chaney.

Bangladesh

Ar y cyd â'r Athro Nasir Uddin o'r Adran Anthropoleg ym Mhrifysgol Chittagong, cynhaliodd yr Athro Paul Chaney gynhadledd ryngwladol ar hawliau dinasyddiaeth ac argyfwng y Rohingya. Roedd hyn yn ran o gyfres o ddigwyddiadau prosiect Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang.

Delhi

Cyflwynodd y Cymrawd Gwadd, Dr Sarbeswar Sahoo o Sefydliad Technoleg India Delhi, seminar WISERD yng Nghaerdydd a chyflwyniad yng *Nghynhadledd Flynyddol WISERD 2019* yn Aberystwyth. Bu Dr Sahoo hefyd yn cyflwyno gweithdy ar y cyd â WISERD yn New Delhi ar gymdeithas sifil a llywodraethu da.

Cyhoeddiadau

Mae WISERD yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd academiaidd, polisi ac ymarferwyr, gan gynnwys cylchlythyrau a blogiau.

Yn 2019, cyhoeddodd WISERD **dros 80** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

- Erthyglau o gyfnodolion 55
- Llyfrau a phenodau mewn llyfrau 4
- Adroddiadau a briffiau 17
- Setiau data 15
- Arall 10

Yn 2019, cyhoeddodd WISERD **16** o flogiau, gydag un ohonynt wedi'i gyhoeddi'n wreiddiol gan *The Conversation*.

Gallwch ddarllen y rhain ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/blogs.

Ers 2008, mae WISERD wedi cyhoeddi **dros 700** o gyhoeddiadau academiaidd, gan gynnwys:

- Erthyglau o gyfnodolion 466
- Llyfrau a phenodau mewn llyfrau 124
- Adroddiadau a briffiau 126


Erthyglau o gyfnodolion a gyhoeddwyd yn 2019

Allbynnau yn y canraddau dyfynnu uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% o gyfnodolion a ddyfynnir fwyaf yn fyd-eang
17.1%

Cydweithio rhyngwladol
Cyhoeddiadau a ysgrifennwyd ar y cyd â sefydliadau mewn gwledydd eraill
24.4%

Cyhoeddiadau yn y canraddau cyfnodolion uchaf
Cyhoeddiadau yn y 10% uchaf o gyfnodolion yn ôl Canradd CiteScore
50%

© 2020 Elsevier B.V. Cedwir pob hawl. Mae SciVal, RELX Group a'r symbol RE yn nodau masnach i RELX Intellectual Properties SA, a ddefnyddir o dan drwydded.



Y Gymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol

Cyhoeddir cyfres o lyfrau WISERD newydd gan Policy Press. Golygyddion y gyfres yw'r Athro Ian Rees Jones a'r Athro Paul Chaney, Prifysgol Caerdydd a'r Athro Mike Woods, Prifysgol Aberystwyth.

Bydd y gyfres yn cynnwys set graidd o gyfrolau wedi'u golygu yn adrodd am ganfyddiadau ymchwil o bob rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD a ariennir gan ESRC. Bydd teitlau dethol yn y gyfres ar gael gyda mynediad agored.

Caiff y gyfres ei lansio ym mis Hydref 2020.

Teitlau'r lansiad:

Yr Economi Sylfaenol a Dinasyddiaeth
Golygwyd gan Ian Rees Jones a Filippo Barbera

Rhoi Cymdeithas Sifil yn ei Lle
Bob Jessop

Cymdeithas Sifil a'r Teulu
Esther Muddiman, Sally Power a Chris Taylor

Cymdeithas Sifil drwy Gwrs Bywyd
Golygwyd gan Sally Power

Gweler rhagor o gyhoeddiadau ar ein gwefan: www.wiserd.ac.uk/publications.

Digwyddiadau ac ymgysylltu 2019

Trefnodd WISERD amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol 2019, gan gynnwys cynadleddau, seminarau, gweithdai ymarferol a hyfforddiant. Roedd y rhain yn cynnig cyfleoedd i rannu ein canfyddiadau ymchwil, datblygu ein sgiliau ymchwil, dysgu methodolegau newydd, a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.

Cofrestrodd dros 1,200 o bobl i fynd i ddigwyddiadau a drefnwyd neu a gynhaliwyd gan WISERD yn 2019, gan gynnwys ymchwilwyr a myfyrwyr PhD, cydweithwyr o'r trydydd sector a'r sector busnes, llunwyr polisiâu ac ymarferwyr.

Roedd dros 200 o bobl yn bresennol mewn 15 digwyddiad hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau a gynhaliwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dulliau Ymchwil, sesiwn ar gyhoeddi gwaith mewn cyfnodolion cydnabyddedig, defnyddio data gofodol o'r cyfryngau cymdeithasol, hyfforddiant gan Uned Cyfnewid Gwybodaeth Senedd y DU ar ffyrdd i ymgysylltu Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ag ymchwil. Cafodd ymchwilwyr hefyd gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn diwrnodau ac wythnosau ysgrifennu.

Roedd dros 150 o bobl yn bresennol yng Nghynhadledd Flynyddol WISERD 2019 ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r Athro Sarah Neal o Brifysgol Sheffield a gyflwynodd y prif anechiad. Cymerodd myfyrwyr ran mewn dwy gystadleuaeth ôl-raddedig, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Ddysgedig Cymru a Phartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Cynhaliwyd dwy gynhadledd fawr hefyd ym Mhrifysgol Abertawe yn 2019, ar Fargeinion Dinesig a llymder, a drefnwyd ar y cyd gydag Academi Morgan. Yn ogystal cynhaliodd WISERD ddarlith hwyr a symposiwm undydd ym Mhrifysgol Caerdydd ar y cyd â'r Sefydliad Anthropolegol Brenhinol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Chymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion, ar *Anthropolegau Cymdeithasol y Cymry: Y Gorffennol a'r Presennol*.

Bu digwyddiadau yn ymwneud â'r rhwydwaith yn rhan allweddol o'n rhaglen o ddigwyddiadau yn 2019. Roedd dros 300 o bobl yn bresennol yn ein digwyddiad Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, a gynhaliwyd ar y cyd â'n Rhwydwaith Ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol lle arddangoswyd y prosiect *Anchor Peoples*.

Gweithiodd ein Rhwydwaith Gwleidyddiaeth a Llywodraethiant gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i drefnu'r gynhadledd, *Polisi a Gwleidyddiaeth yng Nghymru mewn Cyfnod Heb ei Debyg*, a ddaeth â 45 o academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisiâu ynghyd i drafod yr heriau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r rhai y bydd hi'n eu hwynebu, yn benodol mewn perthynas â Brexit a'r pwerau newydd a fydd yn cael eu datganoli.

Mae ymchwilwyr WISERD yn Aberystwyth o'n Rhwydwaith Iaith a Diwylliant WISERD wedi ymuno â'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Amrywiaeth leithyddol i helpu hyrwyddo ymchwil ar draws Ewrop. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn *GWLAD, Gŵyl Dyfodol Cymru*, yn datlu 20 mlynedd o ddatganoli yn y Senedd yng Nghaerdydd, a chyfrannu at *Ŵyl Ein Llais yn y Byd* yn Aberystwyth, a noddir gan UNESCO.

Gwnaeth Rhwydwaith Ymchwil Tai Cymru WISERD gyd-gynnal Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru gyda Chanolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai, Shelter Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae WISERD yn parhau i gael presenoldeb mewn digwyddiadau i randdeiliaid allweddol ac yn ystod 2019 gwnaethom gymryd rhan yn *gofod3* a *Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru*. Gwnaethom hefyd gynnal cynhadledd ar y cyd â Rhwydwaith Ymchwil Astudiaethau'r Sector Gwirfoddol a chyflwyno papurau yng *Nghynhadledd y Sector Wirfoddol ac Ymchwil Gwirfoddoli* Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO) a Rhwydwaith Astudiaethau y Sector Wirfoddol (VSSN). Roedd rhai digwyddiadau ymgysylltu allanol allweddol hefyd yn cynnwys cyflwyno digwyddiad 'Ymylol' yng *Nghyngres y TUC* a sesiwn yn rhan o *Ŵyl y Gelli* 2019. Mae digwyddiadau profil uchel fel hyn yn parhau i gynnig cyfleoedd gwyb i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ymgysylltiad digidol



Ymweliadau â thudalen WISERD ar y we
93,142



Defnyddwyr gwefan WISERD
49,378



Tanysgrifwyr y rhestr postio
2,018



Dilynwyr Twitter
4,515